Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board

| | | |
|---|---|---|
| Dyddiad/Date: | 24 Mai 2024 | **Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc**<br>Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu<br>Ty Llewelyn, Ysbyty Cyffredinol Glangwili<br>Heol Dolgwili, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 2AF<br><br>**Specialist Child & Adolescent Mental Health Services**<br>Mental Health & Learning Disabilities Directorate<br>Ty Llewelyn, Glangwili General Hospital, Dolgwili Road,<br>Carmarthen, Carmarthenshire, SA31 2AF |

Annwyl rieni/gofalwyr,

Mae'n debygol y bydd llawer o rieni a gofalwyr yn pryderu am effaith y digwyddiad argyfyngus diweddar yn Ysgol Dyffryn Aman ar eu plentyn a gall llawer o rieni a gofalwyr gael eu heffeithio'n emosiynol yn uniongyrchol eu hunain. Gall digwyddiadau o'r fath achosi i rai plant, ieuenctid ac oedolion brofi trallod a gall fod yn drech na'u gallu i ymdopi.

Cafwyd ymateb da gan y gymuned i'r digwyddiad hwn wrth ddod ynghyd dan amgylchiadau heriol. Mae'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed Arbenigol (S-CAMHS) wedi bod yn ystyried yn ofalus, ochr yn ochr ag asiantaethau eraill, y cymorth mwyaf defnyddiol y gallwn ei ddarparu ochr yn ochr â'r hyn sydd eisoes wedi'i roi ar waith ar hyn o bryd. Yn y lle cyntaf, hoffem gynnig y cyfle i weithio gyda rhieni a gofalwyr yn dilyn y digwyddiad hwn i gefnogi unrhyw bobl ifanc yr effeithir arnynt.

Bydd hyn yn cynnwys trafodaeth ar-lein ynghylch yr hyn a allai fod yn ddefnyddiol i'w wybod a'r hyn a allai fod yn ddefnyddiol i gefnogi plant sy'n profi unrhyw drallod, trwy Microsoft Teams ar y dyddiad canlynol:

**Dydd Mawrth 11 Mehefin 2024 12:30-14:00pm**

https://teams.microsoft.com/l/meetup-join/19%3ameeting_MjAwYTJlNTQtYmZjNC00MWRjLTkwYjMtYTc2NTMwNjYyODA5%40thread.v2/0?context=%7b%22Tid%22%3a%22bb5628b8-e328-4082-a856-433c9edc8fae%22%2c%22Oid%22%3a%222087c8aa-98c4-49f0-82a2-2cdbea601cdc%22%7d

Bydd y sesiwn yn cael ei llywio gan ymchwil ac arfer gorau wrth ddarparu ymateb tosturiol i'r digwyddiad difrifol hwn a allai fod wedi effeithio ar blant a phobl ifanc yn eich gofal. Bydd cyfle i drafod a bydd gwybodaeth yn cael ei darparu am y llwybrau ar gyfer cymorth pellach lle bo angen.

Os nad ydych yn gallu bod yn bresennol ac os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch effaith ar iechyd meddwl eich plentyn yn dilyn y digwyddiad hwn, gallwch drafod hyn gyda'r ysgol yn y lle cyntaf a fydd yn gallu cysylltu a thrafod yn rheolaidd yn sesiynau ymgynghori S-CAMHS i gael cyngor a gwybodaeth am opsiynau cymorth.

Byddwn yn anfon gohebiaeth bellach yn dilyn sesiwn rhiant/gofalwr yr wythnos nesaf ar

fanylion cyswllt ar gyfer ymgynghoriad galw heibio gyda chlinigydd sydd wedi'i hyfforddi mewn trawma i drafod unrhyw bryderon yn ymwneud ag iechyd meddwl eich plentyn sy'n deillio'n uniongyrchol o'r digwyddiad diweddar, gwybodaeth cyfeirio, a thrafodaeth ar opsiynau ymyrryd posibl sydd ar gael lle bo angen.

Gweler y llythyr caniatâd atodedig ar gyfer caniatâd person ifanc a/neu riant/gofalwr os dymunwch i'ch plentyn gael ei drafod mewn ymgynghoriad.

Yr eiddoch yn gywir

**Gwasanaeth Iechyd Meddwl Arbenigol Plant a'r Glasoed (S-CAMHS)**
**Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Annwyl Riant/Gofalwr/Gwarcheidwad,

**Parthed: Caniatâd i drafod eich plentyn gyda Mewngymorth Ysgolion**

Rydych yn derbyn y llythyr hwn oherwydd bod ysgol eich plentyn yn dymuno trafod lles a/neu anghenion iechyd meddwl eich plentyn gyda ni, i archwilio pa gamau pellach y gallant eu cymryd i gefnogi lles a mynediad at ddysgu eich plentyn.

**Pwy ydyn ni/beth ydyn ni'n ei wneud?**

Mewngymorth Ysgolion (SiR) ydym, gwasanaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru a ddarperir gan y GIG, o fewn y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Arbenigol i Blant a'r Glasoed (S-CAMHS). Rydym yn darparu cefnogaeth i ysgolion yn yr ardal fel y gallant wella eu cefnogaeth i anghenion lles ac iechyd meddwl y disgyblion yn eu gofal.

Rydym yn cynnig cyngor, ymgynghoriad, a hyfforddiant i staff ysgol ynghylch lles ac iechyd meddwl disgyblion. Nid yw Ymarferwyr SiR yn cyfarfod â phlant a theuluoedd nac yn siarad â nhw yn uniongyrchol yn ystod y broses ymgynghori. Lle mae gweithwyr proffesiynol eraill eisoes yn ymwneud â chymorth eich plentyn, efallai y byddwn yn eu gwahodd i ymuno.

Yr ysgol sy'n parhau i fod yn gyfrifol am unrhyw gynlluniau y cytunir arnynt ac am y gefnogaeth addysgol barhaus i'ch plentyn. Mae Meddyg Teulu eich plentyn yn parhau i fod yn gyfrifol am unrhyw anghenion iechyd, gan gynnwys cymorth iechyd meddwl. Nid yw cyfarfod ymgynghori Mewngymorth Ysgolion yn gyfystyr â chyfeirio at S-CAMHS.

**Caniatâd**

Wrth roi caniatâd i'r ysgol drafod anghenion cymorth eich plentyn gyda ni, gallwch ddisgwyl y canlynol gennym ni:

- **Cyfrinachedd:** Bydd gwybodaeth a drafodir rhwng gweithwyr proffesiynol yn cael ei chadw'n gyfrinachol. Bydd SiR yn cadw cofnod o unrhyw drafodaethau am eich plentyn ar ein cofnodion iechyd S-CAMHS i sicrhau parhad cymorth a diogelwch mewn unrhyw ofal a gynigir yn y dyfodol.

- **Eich hysbysu:** Bydd yr ymarferydd SiR yn ysgrifennu amlinelliad byr o'r drafodaeth rydym yn ei chynnal gyda'r ysgol, gan gynnwys unrhyw gamau gweithredu neu newidiadau y mae'r ysgol yn cytuno i'w rhoi ar waith. Byddwn yn copïo unrhyw weithwyr proffesiynol eraill dan sylw, gan gynnwys meddyg teulu eich plentyn. Nid yw unrhyw argymhellion a wnawn yn ein crynodeb yn awgrymu y bydd y rhain yn cael eu hariannu gan S-CAMHS neu Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

• Bydd caniatâd yn parhau'n ddilys ar gyfer unrhyw drafodaethau yn y dyfodol oni chaiff ei ddiddymu.

**Beth ddylwn i ei wneud os oes gennyf unrhyw bryderon am hyn?**
Os oes gennych unrhyw bryderon ac yn dymuno trafod y rhain, cysylltwch â’r ysgol yn y lle cyntaf i drafod y rhain gyda nhw.

| Meddyliau/pryderon rhieni ynghylch iechyd/lles meddwl plentyn (dewisol): |
| --- |
| |

**Llofnodwch isod os ydych yn caniatáu i’r ysgol drafod anghenion cymorth eich plentyn gyda ni:**

Rhoddir caniatâd gan y Rhiant/Gofalwr ………………………………………………………………

I drafod (enw plentyn)………………………………………………Dyddiad Geni………………..

Cyfeiriad…………………………………………………………………………………………….

……………………………………………………………………………………………………

Caniatâd wedi’i sicrhau dros y ffôn neu drwy e-bost gan staff addysgu (rhowch enw) ……………………………………

Dyddiad ………………………………….

I drafod (enw plentyn)…………………………………………  Dyddiad Geni………………..

Cyfeiriad………………………………………………………………………………………………….

…………………………………………………………………………………………………………

Ysgol…………………………………………………Dyddiad……………………………………..

Llofnod aelod o staff…………………………………………………………………………...

Dyddiad…………………………………………………………………………………………
…….